

Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022
- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022
- Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022
- Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022
- Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig:

- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022
- Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022
- Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022
- Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion a Phlant Unigol) (Cymru) 2022
- Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022

Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
17 Mehefin 2022

RHAN 1

1. Disgrifiad

Y Rheoliadau Canlyniadol:

- 1.1. Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022 a Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2002 ("y Rheoliadau Canlyniadol") yn diwygio is-ddeddfwriaeth i roi effaith llawn i ddarpariaethau o dan Ddeddf 2021 a gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o fis Medi 2022.

Y Rheoliadau Eithriadau:

- 1.2. Mae Rheoliadau (Eithriadau Dros Dro) (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Eithriadau") yn galluogi penaethiaid ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir a darparwyr addysg feithrin a gyllidir ond nas cynhelir i benderfynu na ddylai darpariaethau'r Cwricwlwm i Gymru fod yn gymwys i blentyn neu ddisgybl, neu y dylent fod yn gymwys gydag addasiadau.

Y Rheoliadau Lleoliadau Lluosog

- 1.3. Mae llawer o blant a disgyblion wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Mae Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022 ("y Rheoliadau Lleoliadau Lluosog") yn gwneud darpariaeth i'r personau a nodir yn y Rheoliadau hyn baratoi ac adolygu cynllun ynghylch yr addysgu a'r dysgu sydd i'w darparu ar gyfer y plentyn neu'r disgybl yn y Cwricwlwm i Gymru a nodi pa drefniadau asesu fydd yn gymwys i'r plentyn neu'r disgybl.
- 1.4. Mae darpariaethau o dan baragraffau 1.1 i 1.3 uchod i'w cychwyn ar 1 Medi 2022, drwy Orchymyn Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif. 3 a Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2022.

Y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth

- 1.5. Gwneir Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 o dan adrannau 408 a 569 o Ddeddf Addysg 1996 ac maent yn gosod dyletswyddau ar benaethiaid pob ysgol a gynhelir, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion, i wneud trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion mewn perthynas â chynnydd dysgwyr yn erbyn y cwricwlwm perthnasol ar draws y flwyddyn academiaidd.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae'r Rheoliadau a restrir yn y memorandwm esboniadol wedi cael eu gosod fel un pecyn i gefnogi'r broses o weithredu'r Cwricwlwm i Gymru o fis Medi 2022.

- 2.2 Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan ddeddfiadau amrywiol.
- 2.3 Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Addysg 2002.
- 2.4 Mae Gorchymyn Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif. 3 a Darpariaeth Drosiannol ac Arbed) 2022 yn cychwyn darpariaethau o dan Ddeddf 2021 yn raddol yn unol â'r amserlen isod:

Wedi'i gyflwyno'n raddol o:	Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy'n dilyn y Cwricwlwm i Gymru	Blwyddyn ysgol/dysgwyr sy'n dilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (a Lleol)
Medi 2022	Meithrin, derbyn, blwyddyn 1 i flwyddyn 6 a blwyddyn 7 ar gyfer ysgolion/lleoliadau sydd wedi dewis gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022.	Blwyddyn 7 mewn ysgolion/lleoliadau sydd wedi dewis peidio â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru o 2022; a blynyddoedd 8 i 11.
Medi 2023	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 8 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blynyddoedd 9 i 11
Medi 2024	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 9 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blynyddoedd 10 i 11
Medi 2025	Pob blwyddyn hyd at Blwyddyn 10 ac yn cynnwys y flwyddyn honno	Blwyddyn 11
Medi 2026	Dysgwyr blynyddoedd meithrin a derbyn a dysgwyr o oedran ysgol gorfodol (blynyddoedd 1 i 11). Mewn perthynas â Rhan 5 o Ddeddf 2021 - y dysgwyr hynny mewn ysgolion a gynhelir sydd mewn addysg ôl-16 (blynyddoedd 12 a 13).	Dim – ni fydd y Cwricwlwm Cenedlaethol yn berthnasol mwyach.

- 2.5 Lle bo'n briodol, y diwygiadau a wneir o dan Reoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022 a Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) 2022 hefyd yn cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â'r amserlen uchod.
- 2.6 Bydd cychwyn y darpariaethau yn y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth a datgymhwyso a dirymu Rheoliadau 2011 yn cael ei gyflwyno'n raddol yn unol â'r amserlen uchod.
- 2.7 Bydd y Rheoliadau Lleoliadau Lluosog a'r Rheoliadau Eithriadau hefyd yn cael eu cyflwyno'n raddol yn unol â'r amserlen hon.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Deddf 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021, yn gosod fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cwricwlwm a fframwaith asesu newydd a arweinir gan ddibenion ar gyfer plant a phobl ifanc rhwng 3 ac 16 oed sy'n derbyn addysg mewn:
- ysgolion a gynhelir gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir;
 - lleoliadau sy'n darparu addysg feithrin a ariennir nas cynhelir;
 - Unedau Cyfeirio Disgyblion;
 - lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n darparu addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a drefnir gan awdurdodau lleol.
- 3.2 Mae hefyd yn gwneud darpariaeth gyfyngedig ar gyfer addysg ôl-orfodol mewn ysgolion a gynhelir (Rhan 5 o Ddeddf 2021).

Y Rheoliadau Canlyniadol

- 3.3 Mae adran 74(1) o Ddeddf 2021 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth mewn Rheoliadau y maent yn eu hystyried angenrheidiol neu'n briodol i roi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2021, neu o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2021. Gall hyn fod yn ddarpariaeth atodol, deilliadol neu ganlyniadol, neu'n ddarpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed.

Caiff y rheoliadau a wneir o dan adran 74(1) o Ddeddf 2021 ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys y Ddeddf ei hun). Mae adran 75(1)(b) o Ddeddf 2021 yn darparu ymhellach y caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol. Gwneir y Rheoliadau Canlyniadol o dan y pwerau hynny.

Y Rheoliadau Eithriadau

- 3.4 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth sy'n nodi'r gofynion yn ymwneud â mabwysiadu a gweithredu'r cwricwlwm. Mae Pennod 4 yn sefydlu'r pwerau a'r amgylchiadau ar gyfer eithrio plentyn neu berson ifanc o rai neu'r cyfan o'r gofynion hyn.
- 3.5 Mae'r adran hon yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau i alluogi pennaeth neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, benderfynu datgymhwyso'r cwricwlwm neu addasu'r ffordd y caiff ei weithredu ar gyfer disgybl neu blentyn.
- 3.6 Rhaid i'r Rheoliadau ddarparu bod person ond yn gallu gwneud penderfyniad o'r fath os yw'n fodlon y bydd y cwricwlwm a ddarperir ar gyfer y disgybl neu'r plentyn yn cydymffurfio â'r gofynion yn [is-adran \(3\)](#). Bwriad y gofynion hyn yw sicrhau y bydd y cwricwlwm a ddarperir yn un addas.
- 3.7 Mae [is-adran \(4\)](#) yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu, drwy Rheoliadau, amodau pellach y mae'n rhaid eu bodloni cyn y gellir gwneud penderfyniad.

- 3.8 Mae adrannau 42 i 43 o Ddeddf 2021 yn dyblygu i raddau helaeth y ddarpariaeth bresennol yn adran 1 o Ddeddf Addysg 1996.
- 3.9 Mae adran 112 o Ddeddf Addysg 2002 yn darparu pŵer cyfatebol. Y rheoliadau presennol yw [Rheoliadau Addysg \(Cwricwlwm Cenedlaethol\) \(Eithriadau Dros Dro ar gyfer Disgyblion Unigol\) \(Cymru\) 1999](#) ("Rheoliadau 1999"). Gwnaed Rheoliadau 1999 yn wreiddiol o dan Ddeddf Addysg 1996 ond yn dilyn diddymu darpariaethau Deddf 1996 bernir bod Rheoliadau 1999 yn dod i rym fel pe baent wedi'u gwneud o dan Ddeddf 2002 yn rhinwedd Deddf Dehongli 1978.

Y Rheoliadau Lleoliadau Lluosog

- 3.10 Mae'r adran hon yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch addysgu a dysgu ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol sy'n cael addysg mewn mwy nag un lleoliad, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd wedi'u cofrestru mewn:
- Mwy nag un ysgol a gynhelir;
 - Ysgol a gynhelir ac Uned Cyfeirio Disgyblion;
 - Ysgol a gynhelir a chyda darparwr addysg heblaw yn yr ysgol;
 - Uned Cyfeirio Disgyblion a chyda darparwr addysg heblaw yn yr ysgol.
- 3.11 Caiff y Rheoliadau gymhwyso darpariaethau'r Ddeddf mewn perthynas â'r plant hynny, gydag addasiadau neu hebddynt.

Darparu Rheoliadau Gwybodaeth

- 3.12 Mae adran 408 a 569 o Ddeddf Addysg 1996 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau mewn perthynas â darparu gwybodaeth ar gyfer ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin a gynhelir. Gan ddefnyddio'r pwerau hyn, gwnaeth Gweinidogion Cymru Rheoliadau Adroddiad Pennaeth i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2011 ("Rheoliadau 2011") sy'n darparu'r sail ddeddfwriaethol gyfredol ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni am gynnydd disgybl yn yr ysgol a'r cymwysterau a gyflawnwyd.
- 3.13 Mae Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022 yn datgymhwyso ac yna'n dirymu Rheoliadau 2011 ac yn defnyddio pwerau o dan adran 408 o Ddeddf Addysg 1996 i osod dyletswyddau newydd ar benaethiaid mewn perthynas â darparu gwybodaeth i rieni am gynnydd disgybl yn yr ysgol a'r cymwysterau a gyflawnwyd.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Sefydlodd Deddf 2021 fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig i gefnogi'r broses o weithredu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu fel rhan o raglen ehangach o ddiwygio addysg yng Nghymru. Diben y Rheoliadau a nodir yn y memorandwm esboniadol hwn yw gwneud darpariaeth fanwl ar gyfer:

- gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n angenrheidiol i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru;
- i eithriadau neu addasiadau gael eu gwneud ar gyfer disgyblion yn y cwricwlwm newydd;
- gwneud cynlluniau ar gyfer plant a disgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn mwy nag un lleoliad.
- rhannu gwybodaeth â rhieni, gofalwyr a disgyblion.

Y Rheoliadau Canlyniadol

- 4.2 Mae'r diwygiadau a geir yn y rheoliadau hyn yn angenrheidiol o ganlyniad i Ddeddf 2021 ac er mwyn rhoi effaith lawn iddi.
- 4.3 Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 1) 2022 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan ddeddfiadau amrywiol:
- Deddf Plant 1989
 - Deddf Addysg 1996
 - Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
 - Deddf Addysg 2005
 - Mesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009
 - Deddf Addysg (Cymru) 2014
 - Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- 4.4 Daw rheoliadau 1 a 2 i rym ar 1 Medi 2022, a daw'r darpariaethau sy'n weddill i rym fel y nodir yn rheoliadau 3 i 13 unigol, sy'n gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth.
- 4.5 Mae Rheoliadau Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 (Diwygiadau Canlyniadol) (Is-ddeddfwriaeth) (Rhif 2) 2022 yn gwneud diwygiadau i is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002").
- 4.6 Mae Rhan 1 o'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cychwyn y diwygiadau ar 1 Medi 2022 ac eithrio fel y nodir yn y rheoliadau unigol a restrir yn Rhan 2 a'r diffiniad o derminoleg a gynhwysir yn y darpariaethau.
- 4.7 Mae Rhan 2 yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth arall. Er enghraifft, mae diwygiadau yn Rhan 2 yn diwygio terminoleg mewn rheoliadau fel bod eu darpariaethau'n cyd-fynd â Deddf 2021, gan gynnwys dileu cyfeiriadau at "Cwricwlwm Cenedlaethol" a'r "cyfnodau allweddol" a mewnosod cyfeiriadau at "cwricwlwm a fabwysiadwyd o dan Ddeddf 2021". Mae hefyd yn dirymu is-ddeddfwriaeth nad yw'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys Rheoliadau Addysg (Datgymhwyso'r Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2008.

Y Rheoliadau Eithriadau

- 4.8 Gan fod y Rheoliadau 1999 presennol ond yn berthnasol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, ni fyddant yn gweithio gyda'r cwricwlwm newydd ac felly rydym

yn dirymu'r Rheoliadau hynny ac yn gwneud darpariaeth newydd o dan Ddeddf 2021 ar gyfer plant a disgyblion yn y cwricwlwm newydd. Bydd y ddarpariaeth newydd yn weddol debyg i'r hyn a wnaed yn Rheoliadau 1999.

- 4.9 Bydd y Rheoliadau Eithriadau a wneir o dan adran 42 yn galluogi penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir i ddatgymhwyso, neu wneud cais gyda neu addasiadau, y cyfan neu rai o ofynion cwricwlwm Deddf 2021. Ond rhaid iddynt fod yn fodlon y bydd y cwricwlwm a gaiff ei weithredu ar gyfer yr unigolyn neu'r plentyn o ganlyniad i'r penderfyniad:
- yn galluogi'r disgybl neu'r plentyn i ddatblygu yn y ffyrdd a ddisgrifir yn y pedwar diben;
 - yn sicrhau addysgu a dysgu sy'n cynnig cynnydd priodol ar gyfer pob disgybl neu blentyn;
 - yn addas ar gyfer oedran, gallu a dawn y disgybl neu'r plentyn;
 - yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol (os o gwbl) y disgybl neu'r plentyn;
 - yn sicrhau addysgu a dysgu eang a chytbwys i'r disgybl neu'r plentyn.
- 4.10 Mae'r Rheoliadau Eithriadau yn darparu ar gyfer:
- cyfnod gweithredu o 6 mis;
 - cyfnod rhagarweiniol o 1 mis;
 - gellir torri'r cyfnod gweithredol yn fyr os nad oes angen yr eithriad mwyach
 - efallai y bydd penderfyniadau pellach yn darparu ar gyfer eithriadau dros dro pellach.
- 4.11 Mae Rheoliadau 1999 yn gwneud gofynion mewn perthynas â darparu gwybodaeth am eithriadau dros dro. Fodd bynnag, nodir y manylion hyn yn adran 44 o Ddeddf 2021 ac felly nid oes angen gwneud darpariaeth yn y Rheoliadau newydd.
- 4.12 Dylid darparu'r wybodaeth i'r disgybl a rhiant/gofalwr y disgybl. Yn achos plant mewn addysg feithrin a ariennir, rhaid ei darparu i'r rhiant/gofalwr.
- 4.13 Mae'r Rheoliadau Eithriadau'n galluogi i benderfyniad gael ei amrywio neu ei ddirymu pan fo'r pennaeth neu ddarparwr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir wedi'i fodloni nad yw unrhyw ddarpariaeth sydd ynddo yn briodol mwyach ar gyfer y disgybl neu'r plentyn hwnnw. Fodd bynnag, fel yn achos Rheoliadau 1999, ni fydd y Rheoliadau Eithriadau newydd yn caniatáu newidiadau i'r cyfnod gweithredol.
- 4.14 Yn debyg i Rheoliadau 1999, bydd y Rheoliadau Eithriadau yn galluogi rhieni/gofalwyr a disgyblion i ofyn i'r pennaeth wneud, amrywio neu ddirymu penderfyniad. Yn achos darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir, bydd y rhieni/gofalwyr (nid y plentyn) yn gallu gwneud cais.
- 4.15 Mae adrannau 45 a 46 o Ddeddf 2021 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag apelau ynghylch eithriadau dros dro ar gyfer disgyblion a phlant unigol.

Y Rheoliadau Gosodiadau Lluosog

- 4.16 Mae nifer o resymau pam mae plant a phobl ifanc wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad. Er enghraifft, plant yn rhannu eu hamser rhwng rhieni sydd wedi gwahanu sydd â gwarchodaeth ar y cyd; plant o gymunedau Teithwyr; a phlant sy'n derbyn AHY am gyfran o'r wythnos am nad ydynt, am ba reswm bynnag, yn gallu mynychu addysg amser llawn mewn ysgol a gynhelir.
- 4.17 Mae'n bwysig darparu ar gyfer cynllunio a chydlynu'r cwricwla a gyflwynir ar gyfer y dysgwyr hyn er mwyn sicrhau eu bod yn elwa ar y cwricwlwm llawn fel y bo'n briodol ar eu cyfer; a bod trefniadau asesu yn cyfrannu'n briodol at eu cynnydd drwy gydol eu haddysg.
- 4.18 Gall addysg heblaw yn yr ysgol, gan gynnwys addysg mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion¹, chwarae rhan hanfodol wrth addysgu dysgwyr nad yw addysg brif ffrwd yn addas ar eu cyfer, gan gynnwys rhai dysgwyr sy'n agored i niwed. Gellir darparu addysg o'r fath mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sefydliadau addysg bellach, tiwtora yn y cartref a ddarperir gan awdurdodau lleol (sy'n wahanol i addysg ddewisol yn y cartref) neu ysgolion annibynnol.
- 4.19 O dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996², rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu addysg addas mewn ysgol, neu heblaw yn yr ysgol, ar gyfer dysgwyr o oedran ysgol gorfodol na fydd, am ba bynnag reswm, yn cael addysg addas am unrhyw gyfnod oni bai bod trefniadau o'r fath wedi'u gwneud ar eu cyfer.
- 4.20 Gall dysgwyr sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol gael eu haddysg drwy gyfuniad o ddarpariaethau. Gallai hyn gynnwys darpariaeth heblaw yn yr ysgol rhan-amser a darpariaeth prif ffrwd ran-amser neu ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol amser llawn sy'n cynnwys dau fath neu ragor o ddarpariaeth. Mae rheoliad 9 o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 yn gwneud darpariaeth i ddisgyblion sy'n mynychu dau leoliad cofrestredig, gan gynnwys ysgolion annibynnol, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ysgolion prif ffrwd, fod â chofrestriad deul.
- 4.21 Yn 2020/21, roedd 3,246 o ddisgyblion yn derbyn addysg heblaw yn yr ysgol³. O'r rheini:
- Roedd 1,060 wedi'u cofrestru i dderbyn addysg heblaw yn yr ysgol yn unig (darpariaeth heblaw yn yr ysgol amser llawn)
 - Roedd 1,792 â chofrestriad deul atodol gyda'u hysgol (darpariaeth heblaw yn yr ysgol rhan-amser, gan dreulio'r lleiafrif o'u hamser yn eu hysgol)
 - Roedd 394 â phrif gofrestrriad deul gyda'u hysgol (darpariaeth heblaw yn yr ysgol rhan-amser, gan dreulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn eu hysgol).

¹ Yn gyffredinol, ystyrir Unedau Cyfeirio Disgyblion yn fath o addysg heblaw yn yr ysgol er bod uned o'r fath yn ysgol a gynhelir gan ALL.

² Fel y'i mewnosodwyd yn Neddf 1996 gan Ddeddf 2021.

³ [Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2020 tan Awst 2021 | LLYW.CYMRU](#)

- 4.22 Ar hyn o bryd, mae gwahaniaeth rhwng gofynion y cwricwlwm statudol i ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir a gofynion y cwricwlwm statudol i ddysgwyr mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol. Mae Deddf 2021 yn hwyluso fframwaith mwy cynhwysol ar gyfer addysg drwy osod gofynion tebyg o ran y cwricwlwm ac asesu ar ddarparwyr ar draws ysgolion a gynhelir, Unedau Cyfeirio Disgyblion ac addysg heblaw yn yr ysgol mewn lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion. Dylai hyn helpu plant a phobl ifanc sy'n symud o un math o leoliad i un arall, er enghraifft o Uned Cyfeirio Disgyblion i ysgol brif ffrwd.
- 4.23 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr ystyried yr hyn sy'n briodol i'r dysgwr a'i ddatblygiad ac mae'n cydnabod y gallai dysgwyr mewn rhai achosion symud o un lleoliad i'r llall neu gael eu cofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad.⁴
- 4.24 Roedd 474,724 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol ym mis Ebrill 2021. O'r rhain, roedd 1,866 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn dwy ysgol a gynhelir (ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd neu arbennig).⁵
- 4.25 Pan fo plentyn neu berson ifanc wedi'i gofrestru mewn mwy nag un ysgol neu leoliad, mae'r Rheoliadau Lleoliadau Lluosog yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol lle mae'r dysgwr yn preswyllo fel arfer baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn sicrhau'r canlynol:
- yr addysgu a'r dysgu sydd i'w darparu ar gyfer y disgybl ym mhob ysgol neu leoliad
 - y trefniadau asesu a fydd yn berthnasol i'r disgybl ym mhob ysgol neu leoliad,
 - y trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd y disgybl i rieni neu ofalwyr.
- 4.26 Nid yw'r Rheoliadau Lleoliadau Lluosog yn rhagnodi'r manylion sydd i'w cynnwys yn y cynllun hwn. Mater i'r awdurdod lleol fydd gweithio gyda'r personau perthnasol sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu'r disgybl:
- Penaethiaid
 - Cyrff llywodraethu Athrawon Cyfrifol
 - Pwyllgorau rheoli
 - Darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol (a drefnwyd o dan adran 19A o Ddeddf Addysg 1996)
 - Awdurdodau lleol (sy'n darparu trefniadau o dan adran 19A o Ddeddf 1996 neu sy'n gyfrifol am ysgol y mae'r dysgwr wedi'i gofrestru ynddi).

⁴ I gael rhagor o wybodaeth ac arweiniad ar nodweddion allweddol darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion ac mewn lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion o dan fframwaith Cwricwlwm i Gymru: [Addysg Heblaw yn yr Ysgol – Hwb \(llyw.cymru\)](#).

⁵ Cyfrifiad Ysgolion Ebrill 2021

- 4.27 Byddai cynllun yn dechrau ar y diwrnod y caiff y dysgwr ei gofrestru mewn mwy nag un lleoliad neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny; a byddai'r cynllun yn para am hyd at 12 mis.
- 4.28 Hefyd, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol adolygu'r cynllun yn barhaus a'i ddiwygio:
- os caiff y cwricwla a ddarperir i'r dysgwr yn y naill leoliad neu'r llall ei ddiwygio⁶
- neu
- os yw'r awdurdod o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny ar unrhyw adeg.
- 4.29 Er mwyn hyrwyddo tryloywder, bydd yn ofynnol i'r personau perthnasol ddarparu copi o'r cynllun i'r dysgwr a'i riant neu ofalwr. Fodd bynnag, ni fydd y gofyniad i ddarparu copi i'r dysgwyr yn gymwys os bydd yr awdurdod lleol, mewn ymgynghoriad â'r personau perthnasol (e.e. y pennaeth neu'r athro cyfrifol), yn penderfynu nad oes gan y dysgwr y gallu i ddeall yr wybodaeth yn y cynllun.
- 4.30 Manteision yr opsiwn hwn:
- cael dull cyffredin yn genedlaethol o ymdrin â dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn mwy nag un lleoliad er mwyn sicrhau cysondeb a pharhad i'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion neu leoliadau mewn mwy nag un awdurdod;
 - ei gwneud yn haws i ddysgwyr sy'n elwa ar ddarpariaeth mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol arall drosglwyddo'n ôl i addysg brif ffrwd pan fyddant yn gallu gwneud hynny;
 - lleihau'r tebygolrwydd y bydd cyfrifoldeb am ddysgwyr yn cael ei golli rhwng ysgolion neu leoliadau, e.e. rhwng lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol ac ysgolion (h.y. llai o amwysedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y dysgwr).
- 4.31 Yn achos plant sy'n derbyn gofal, o dan y ddeddfwriaeth bresennol rhaid i'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am blentyn sy'n derbyn gofal baratoi cynllun addysg personol ar gyfer y plentyn hwnnw.⁷
- 4.32 Mae hwn yn gofnod o'r trefniadau a wneir i ddiwallu anghenion y plentyn mewn perthynas ag addysg a hyfforddiant. Fodd bynnag, efallai na fydd yr awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn yr un fath â'r awdurdod lleol lle mae'n preswyllo fel arfer.
- 4.33 Er mwyn sicrhau cysondeb, bydd yn ofynnol i'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn baratoi'r cynllun i gydlyn darpariaeth y cwricwlwm ar draws lleoliadau. Bydd hyn yn sicrhau bod y ddau gynllun yn cyd-fynd a bod darpariaeth addysgol briodol yn cael ei gwneud ar gyfer y plentyn hwnnw.

⁶ Yn achos plentyn sy'n cael cwricwlwm addysg heblaw yn yr ysgol mewn lleoliad nad yw'n Uned Cyfeirio Disgyblion o dan adran 53 o Ddeddf 2021, mae'r cwricwlwm wedi'i deilwra i'r plentyn yn hytrach nag i'r lleoliad.

⁷ Adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth

- 4.34 Mae Rheoliadau 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhannu gwybodaeth â rhieni a gofalwyr mewn perthynas â chynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr o fewn y cwricwlwm presennol. Mae'r rheoliadau'n gwneud darpariaeth ar gyfer adrodd ar wybodaeth mewn perthynas â chyrhaeddiad yn erbyn y cwricwlwm presennol, lle caiff cyrhaeddiad dysgwyr ei asesu drwy asesiadau diwedd cyfnod yn erbyn cyfnodau allweddol a disgrifyddion lefel a gwneir dyfarniad ar adeg benodol yn nhaith ddysgu disgybl. O dan y Cwricwlwm i Gymru ni fydd cyfnodau allweddol na disgrifyddion lefel a bydd disgyblion yn cael eu hasesu ar hyd continwrm dysgu, lle dylid defnyddio camau cynnydd a disgrifiadau o ddysgu i helpu ysgolion i gynllunio cynnydd priodol.
- 4.35 Yn sgil pasio Deddf 2021 a'r gofyniad i roi trefniadau'r cwricwlwm newydd ar waith o fis Medi 2022, bydd y darpariaethau mewn perthynas â chyrhaeddiad yn erbyn asesiadau'r cyfnod allweddol yn dod i ben. Felly, roedd angen adolygu a diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag ethos y Cwricwlwm i Gymru.

Cychwyn a Dirymu

- 4.36 Bydd y Cwricwlwm i Gymru a'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol (fel y nodir yn Adran 2 uchod). Bydd ysgolion uwchradd yn ddarostyngedig i ddyletswyddau o dan Rheoliadau 2011 a Rheoliadau Darparu Gwybodaeth 2022 hyd nes y caiff y Cwricwlwm i Gymru ei gyflwyno'n llawn a bod y ddeddfwriaeth yn cael ei dirymu'n llawn. Felly, mae rheoliad 1 a 3 o'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn ymdrin â chychwyn a chymhwyso Rheoliadau 2022 a datgymhwyso a dirymu Rheoliadau 2011.

Gofyniad i ddarparu gwybodaeth – cynnydd tymhorol a blynyddol

- 4.37 Mae ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig rhieni a gofalwyr, yn un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhieni yn rhanddeiliaid allweddol i ysgolion wrth iddynt ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm ac ystyrir eu bod yn hollbwysig i roi cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus sy'n helpu dysgwyr i gyflawni'r pedwar diben. Gall rhieni chwarae rhan allweddol wrth gefnogi'r dysgwyr i wneud cynnydd, gan ddarparu cymorth ychwanegol sy'n pontio'r bwloch rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae ymgysylltu'n effeithiol â rhieni yn bwysig er mwyn cyflawni hyn, a gall hefyd roi sicrwydd i rieni o ran cynnydd eu dysgwyr, cyflwyno'r cwricwlwm a'r cymorth sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion.
- 4.38 Gan gydnabod manteision ymgysylltu â rhieni drwy gyfathrebu parhaus ynghylch cynnydd, mae'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar benaethiaid ysgolion a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir ac Unedau Cyfeirio Disgyblion) i wneud trefniadau i ddarparu gwybodaeth am gynnydd y dysgwyr i ddisgyblion sy'n oedolion, rhieni

disgyblion sy'n oedolion (os ystyrir bod hynny'n briodol) ac i rieni pob plentyn cofrestredig mewn ysgol. Er mwyn sicrhau bod gan rieni'r wybodaeth berthnasol sydd ei hangen i allu cynnig cymorth i'w plentyn drwy gydol y flwyddyn academaidd, mae Rheoliad 4 yn ei gwneud yn ofynnol i benaethiaid wneud trefniadau ar gyfer darparu gwybodaeth, fel yr amlinellir yn Rhan 1 o Atodlen 2, bob tymor.

Adroddiad i ddisgybl sy'n ymadael â'r ysgol

- 4.39 I sicrhau bod disgybl sy'n peidio â bod o oedran ysgol gorfodol yn gadael ysgol gyda chofnod o'i gyflawniadau a gwybodaeth am ei alluoedd a'i gynnydd, a allai fod yn ddefnyddiol yng nghan nesaf ei daith addysg neu alwedigaethol, mae Rheoliad 8 yn ei gwneud yn ofynnol i benaeth ddarparu adroddiad ar y rhai sy'n gadael yr ysgol.
- 4.40 Mae Rhan 4 o Atodlen 2 yn rhoi manylion ynghylch pa wybodaeth y dylid ei darparu yn yr adroddiad gan gynnwys manylion unrhyw gymhwyster perthnasol a gymeradwywyd ac unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath a ddyfarnwyd i'r disgybl, manylion byr am gynnydd a chyflawniadau'r disgybl mewn pynciau (ac eithrio'r rhai lle mae'r disgybl wedi cyflawni unrhyw gymhwyster perthnasol cymeradwy neu unrhyw uned neu gredyd tuag at gymhwyster o'r fath), a manylion byr am gynnydd y disgybl mewn unrhyw weithgareddau sy'n rhan o gwricwlwm yr ysgol, yn y flwyddyn ysgol pan adawodd y disgybl yr ysgol neu ar ddiwedd y flwyddyn honno.
- 4.41 I nodi lefel dilysrwydd yr adroddiad, mae'r ddarpariaeth yn cadw'r gofynion i'r adroddiad gael ei lofnodi gan y disgybl ac athro sy'n gyfarwydd â'r disgybl a'i gyflawniadau. Fodd bynnag, gellir darparu'r llofnodion hyn yn electronig erbyn hyn.
- 4.42 Mae rheoliad 9 yn nodi'r amserlen ar gyfer darparu adroddiad y sawl sy'n gadael yr ysgol ac mae'n adlewyrchu'r ddarpariaeth gyfatebol yn Rheoliadau 2011.

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011

- 4.43 Mae [Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion \(Cymru\) 2011](#) presennol yn darparu ar gyfer cadw cofnodion addysgol gan benaeth.
- 4.44 Yn y Rheoliadau hyn diffinnir "cofnod cwricwlaidd" fel cofnod ffurfiol o gyflawniadau academaidd disgybl, sgiliau a galluoedd eraill y disgybl a'i gynnydd yn yr ysgol, fel y nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth. Wrth ddirymu a disodli Rheoliadau 2011, mae angen diwygiad canlyniadol i Rheoliadau Gwybodaeth am Ddisgyblion (Cymru) 2011 i dynnu'r cyfeiriad at Rheoliadau 2011 a chyfeirio at y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth.

5. Ymgynghori

Y Rheoliadau Canlyniadol

- 5.1. Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol mewn perthynas â Rheoliadau Canlyniadol 2022 gan eu bod ond yn gwneud diwygiadau technegol a chanlyniadol sy'n ofynnol i roi effaith lawn i'r Ddeddf.

Y Rheoliadau Eithriadau a'r Rheoliadau Lleoliadau Lluosog

- 5.2. Datblygwyd y cynigion mewn trafodaeth ag arweinwyr polisi trawsadrannol, gan gynnwys ymarferwyr ar secondiad o ysgolion uwchradd ac arbennig ac Unedau Cyfeirio Disgyblion sy'n gweithio gyda swyddogion ar weithredu'r Cwricwlwm i Gymru, ac ymarferwyr o gymysgedd o ysgolion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol.
- 5.3. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol chwe wythnos o 5 Ebrill i 17 Mai. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad i gynulleidfa o randdeiliaid allweddol gan gynnwys consortia rhanbarthol, Estyn, Grŵp Penaethiaid Unedau Cyfeirio Disgyblion ac ar y cyfryngau cymdeithasol gan ein tîm Cyfathrebu.
- 5.4. Er bod diddordeb gan ymarferwyr a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd gwneud darpariaeth, dim ond wyth ymateb a gafwyd i'r ymgynghoriad. Gall hyn adlewyrchu'r ffaith bod y cynigion yn gyson â'r darpariaethau presennol ac yn unol i raddau helaeth â disgwyliadau rhanddeiliaid.
- 5.5. Cafwyd ymatebion gan:
 - awdurdod lleol
 - cynghorydd awdurdod lleol
 - ysgol gynradd
 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru
 - Colegau Cymru
 - Mudiad Meithrin
 - Comisiynydd Plant Cymru
 - Ymatebwr anhysbys
- 5.6. Roedd yr ymatebion yn gyffredinol o blaid y cynigion ar gyfer eithriadau dros dro. Cododd y Comisiynydd Plant bwynt pwysig am gynnwys y dysgwyr a'r rhieni/gofalwyr yn y penderfyniadau ynghylch gwneud, amrywio a dirymu'r cyfarwyddiadau hyn. Rhaid rhannu gwybodaeth gyda dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr, ac mae mesurau diogelu wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau ac yn y Ddeddf i ganiatáu iddynt gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau ac ar gyfer apeliadau. Darperir ar gyfer eglurhad o hyn mewn canllawiau wedi'u diweddarau. Rydym yn rhagweld y bydd yr amgylchiadau lle byddai'r darpariaethau hyn yn cael eu defnyddio, nad ydynt yn cynnwys anghenion dysgu ychwanegol, yn gofyn am ddull hyblyg ysgafn i ganiatáu ar gyfer amgylchiadau, megis salwch difrifol.
- 5.7. Roedd yr ymatebion hefyd, gan fwyaf, o blaid y cynigion ar gyfer cynllunio a chydlynu darpariaeth dysgu ac addysgu ar gyfer disgyblion a gofrestrwyd

mewn mwy nag un lleoliad. Roedd yr ymatebion yn tynnu sylw at natur amrywiol y ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol a'i threfniadaeth ar draws awdurdodau lleol, er enghraifft y gwahanol ddulliau a ddefnyddir wrth gofrestru disgyblion mewn prentisiaethau iau ac amrywiadau darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol. Cyhoeddir canllawiau wedi'u diweddarau ar y darpariaethau hyn, ond efallai y bydd angen gwneud mwy o waith i sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu colli.

Y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth

- 5.8. Datblygwyd y cynigion deddfwriaethol ar y cyd ag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Asesu, sy'n grŵp arbenigol gyda chynrychiolwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig, academyddion a chynrychiolwyr o'r haen ganol gan gynnwys Consortia a Phartneriaethau Rhanbarthol ac Estyn. Roedd cyd-adeiladu'r polisi yn caniatáu i ni ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd y grŵp i ystyried a myfyrio ar effaith weithredol a goblygiadau cysylltiedig y cynigion polisi.
- 5.9. Mae Grŵp Cynghori ar Asesu wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu'r polisi asesu yn y Cwricwlwm i Gymru, wrth gyd-awduredd y Canllawiau Cefnogi Cynnydd Dysgwyr, yn ogystal â'r polisi manylach ar gyfer Rheoliadau 2022.
- 5.10. Cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol 8 wythnos rhwng 6 Medi a 31 Hydref 2021 ar y cynigion ar gyfer trefniadau asesu o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad i gynulleidfa eang o randdeiliaid allweddol gan gynnwys ysgolion, lleoliadau, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol, Comisiynydd Plant Cymru, grwpiau plant, Estyn, undebau athrawon a rhanddeiliaid ehangach.
- 5.11. Roedd y strategaeth ymgysylltu i gefnogi'r ymgynghoriad yn cynnwys gwaith gyda Wavehill i gynnal grwpiau ffocws penodol. Amcan cyffredinol y grwpiau ffocws oedd casglu ystod o wybodaeth ychwanegol i ddeall barn rhai grwpiau am y cynigion. Roedd hyn yn cynnwys cwestiynau mwy manwl am y cynigion yn y ddogfen ymgynghori, a chwestiynau penodol mewn perthynas â grwpiau unigol o randdeiliaid a amlinellwyd yn y gofynion. Casglodd y grwpiau ffocws farn plant a phobl ifanc, rhieni a gofalwyr, uwch arweinwyr, llywodraethwyr a chynrychiolwyr o leoliadau addysg heblaw yn yr ysgol gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion.
- 5.12. Cafwyd 78 o ymatebion. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn gyflwyniadau manwl. Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael ar-lein yn: [Trefniadau asesu: is-ddeddfwriaeth yn deillio o Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu \(Cymru\) 2021](#).
- 5.13. Roedd y prif bwyntiau a godwyd yn ymwneud yn bennaf ag adborth ehangach, a oedd yn ymestyn y tu hwnt i gynnwys y Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, fe wnaeth yr adborth a gafwyd helpu i ddiwygio'r gwaith o ddrafftio'r Rheoliadau. Er enghraifft, fe wnaeth adborth a gododd bryderon ynghylch rhannu gwybodaeth am "iechyd meddwl" dysgwr yn ystod y cyfnod

trosglwyddo neu wrth ddarparu gwybodaeth i rieni a gofalwyr arwain at ddileu cyfeiriadau at iechyd meddwl gan ganolbwyntio ar les y dysgwr yn unig.

- 5.14. Roedd yr adborth yn dangos awydd am ddeunyddiau enghreifftiol a deunyddiau ategol ar draws y ddau faes deddfwriaethol ac mae gwaith ar y gweill i gynhyrchu deunyddiau ategol ychwanegol a gyhoeddir yn ddiweddarach yn nhymer yr haf 2022.

RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol gan eu bod yn gwneud diwygiadau i statud yn unig ac nid ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau neu gyrff gwirfoddol na'r sector cyhoeddus.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol - trosolwg

- 6.1 Mae'r gofynion ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni am gynnydd dysgwr yn y cwricwlwm a galluogi penaethiaid i wneud penderfyniadau ar eithriadau dros dro yn brosesau allweddol sydd eisoes yn bodoli o fewn y system ysgolion ac sy'n cyd-fynd â dyletswyddau a gofynion eraill a osodir ar ysgolion. Maent yn parhau i fod yn brosesau pwysig o dan fframwaith y Cwricwlwm i Gymru. Mae sicrhau bod pob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd fwyaf agored i niwed, yn cael y cwricwlwm llawn sy'n briodol iddyn nhw pan ddarperir eu haddysgu a'u dysgu mewn mwy nag un lleoliad yn cefnogi cynwysoldeb yn y prosesau hyn.
- 6.2 Fel y cydnabyddir yn yr adran [Cynllunio eich Cwricwlwm](#) o ganllawiau'r Cwricwlwm i Gymru, mae datblygu'r cwricwlwm ac asesu'n broses gyfannol o reidrwydd. Mae angen iddi adlewyrchu amrywiaeth o ystyriaethau, yn ogystal â dyletswyddau eraill a gofynion gorfodol o dan Ddeddf 2021, canllawiau cwricwlwm ehangach ac amgylchiadau lleol. Mae'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth, y Rheoliadau Eithriadau Dros Dro a'r Rheoliadau Lleoliadau Lluosog yn ystyried lefel y sybsidiaredd a ddarperir i ysgolion drwy fframwaith Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi hyblygrwydd i gyrff llywodraethu a phenaethiaid o ran sut y dylid gweithredu darpariaethau i adlewyrchu a chefnogi'r sybsidiaredd hwnnw. O ganlyniad, ni ystyrir bod dadansoddiadau a chostau ar wahân yn ymwneud ag effeithiau dosrannu elfennau penodol o Fframwaith deddfwriaethol Cwricwlwm i Gymru (y mae'r rheoliadau hyn yn rhan ohonynt) yn ddichonadwy; neu, os ceisir gwneud hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau amheus o ystyried yr ystod eang o newidynnau a chafeatau cysylltiedig. Yn fyr, byddai'n afrealistig ceisio dadbacio, asesu ac adrodd ar effeithiau'r gofynion penodol a nodir yn y broses ehangach o weithredu Cwricwlwm i Gymru mewn ysgolion a lleoliadau.
- 6.3 Mae gwybodaeth fanwl wedi'i chasglu am y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o gynllunio a gweithredu'r cwricwlwm ac asesu ar gyfer ysgolion a lleoliadau. Nodir hyn yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021 a basiwyd yn y Senedd ar 9 Mawrth 2021, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 29 Ebrill 2021 ac a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2021. Yn ystod hynnt Deddf 2021 ymrwymodd

Llywodraeth Cymru i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd am y costau sy'n gysylltiedig â gweithredu Deddf 2021 a diwygio'r cwricwlwm. Darparwyd yr wybodaeth hon i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ym mis Ionawr 2022 fel rhan o'r broses o graffu ar y gyllideb.

Asesiadau Effaith

- 6.4 Mae'r broses o asesu effaith mewn perthynas â'r Cwricwlwm i Gymru yn mynd rhagddi. O ganlyniad, mae amrywiaeth o asesiadau effaith eisoes wedi'u cyhoeddi ac, mewn rhai achosion, wedi'u diweddarau'n ddiweddar, yn ymwneud yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â'r gofynion ar ysgolion a lleoliadau. Mae'r rhain yn cynnwys:
- Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer [Rheoliadau Addysg \(Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru\) 2022](#)
 - Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y [Cod Cynnydd a'r Cod Datganiadau o'r Hyn sy'n Bwysig](#) a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021.
 - Ym mis Ebrill 2021, cyhoeddwyd gwybodaeth fanwl am y costau, y manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddiwygio'r cwricwlwm ar draws y system ac ar gyfer ysgolion a lleoliadau yn y [Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol](#) ar gyfer Deddf 2021. Fel y nodwyd ym mharagraff 6.3, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i ddiweddarau'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn ymhellach erbyn diwedd 2021.
 - Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd [asesiad effaith integredig](#) o sut y byddai cynigion ar gyfer deddfwriaeth Cwricwlwm ac Asesu yn effeithio ar addysgu a dysgu.
 - [Sicrhau mynediad i'r cwricwlwm llawn: asesiad o'r effaith ar hawliau plant](#) a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
 - [Asesiad o effaith canllawiau'r cwricwlwm i Gymru 2022 ar hawliau plant](#). a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2020.
 - [Asesiad Effaith Integredig ar gynigion deddfwriaethol i gefnogi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg](#) a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2020.
 - Y ffurflen [Nodi'r Effaith ar y System Gyfiawnder](#) a gyhoeddwyd ym Mis Ebrill 2018.

7. Opsiynau

Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro) (Cymru) 2022

Opsiynau

- 7.1 Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau tebyg iawn i'r rhai sydd eisoes ar waith o dan y ddeddfwriaeth bresennol er mwyn rhoi cyfle i benaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir arfer eu barn

broffesiynol pan fo angen hyblygrwydd i leddfu amgylchiadau plentyn neu berson ifanc.

- 7.2 Mae'r ddarpariaeth a wneir yn y Rheoliadau hyn yn golygu, i bob pwrpas, y bydd y polisi ar alluogi eithriadau dros dro yn parhau o dan y Cwricwlwm i Gymru.

Costau a manteision

- 7.3 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno Rheoliadau Addysg (Eithriadau Dros Dro) (Cymru) 2022. Mae'r darpariaethau'n debyg i'r rhai sydd eisoes ar waith. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru, maent wedi'u hystredu i gynnwys darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir er mwyn caniatáu ar gyfer cymhwyso eithriadau i ddysgwyr yn y lleoliadau hynny.
- 7.4 Heb y Rheoliadau hyn, ni fyddai penaethiaid a darparwyr addysg feithrin a ariennir nas cynhelir yn gallu cefnogi anghenion ac amgylchiadau dysgwyr unigol yn llawn.

Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022

Opsiynau

- 7.5 Mae gwneud dim yn peryglu plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn mwy nag un lleoliad yn llithro drwy'r craciau drwy beidio â bod yn weladwy i'r naill leoliad neu'r llall neu o beidio â derbyn y cwricwlwm llawn fel sy'n briodol iddynt.
- 7.6 Ystyriwyd gosod gofynion ar arweinwyr addysg mewn ysgolion a lleoliadau eraill, gan gynnwys penaethiaid, athrawon sy'n gyfrifol am unedau cyfeirio disgyblion a darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol nad ydynt yn unedau cyfeirio disgyblion, i weithio gyda'i gilydd i ddatblygu cynlluniau ar gyfer dysgwyr a mwy o bresgripsiwn ar yr hyn y dylid ei gynnwys.
- 7.7 Fodd bynnag, amlygodd trafodaethau rhwng swyddogion ac unedau cyfeirio disgyblion ac ymarferwyr addysg heblaw yn yr ysgol mewn Unedau Cyfeirio Disgyblion a lleoliadau nad ydynt yn Unedau Cyfeirio Disgyblion bwysigrwydd peidio â bod yn rhy gyfarwyddol ynglŷn â'r manylion sydd i'w cynnwys mewn cynlluniau oherwydd bod gormod o newidynnau'n ymwneud ag amgylchiadau unigol disgyblion a'r ddarpariaeth sydd ar gael iddynt.
- 7.8 Bwriad y Rheoliadau hyn yw rhoi cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i weithio gyda'r personau perthnasol sy'n gyfrifol am addysgu a dysgu'r disgybl er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n cydweithio er budd y dysgwr a rhannu gwybodaeth am eu cynnydd gyda nhw a'u rhieni neu ofalwyr.

Costau a manteision

- 7.9 Nid oes unrhyw gostau sylweddol ychwanegol yn gysylltiedig â chyflwyno Rheoliadau Addysg mewn Lleoliadau Lluosog (Cymru) 2022. Bydd rhai costau gweinyddol i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cynlluniau ond bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y dull a ddefnyddir ganddynt i ddatblygu eu cynlluniau a nifer y dysgwyr, sy'n ffurfio carfan fach o ddysgwyr.
- 7.10 Yn ôl y Cyfrifiad Ysgolion o fis Ebrill 2021:
- roedd 1,866 o ddisgyblion wedi'u cofrestru mewn dwy ysgol a gynhelir (ysgolion meithrin, cynradd, canol, uwchradd neu arbennig); ac
 - roedd 1126 wedi'u cofrestru'n ddeuol ac yn derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol (394 yn derbyn darpariaeth heblaw yn yr ysgol ac yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn yr ysgol a 732 yn derbyn darpariaeth heblaw yn yr ysgol â statws cofrestru atodol mewn ysgol)⁸
- 7.11 Awgrymodd tystiolaeth anecdotaidd gan randdeiliaid fod nifer o'r dysgwyr sy'n derbyn darpariaeth EOTAS wedi'u cofrestru'n ddeuol ond mai dim ond un lleoliad sy'n eu mynychu.
- 7.12 Manteision yr opsiwn hwn:
- Sicrhau cysondeb a pharhad i'r rhai sydd wedi'u cofrestru mewn ysgolion neu leoliadau mewn mwy nag un awdurdod;
 - ei gwneud yn haws i ddysgwyr sy'n elwa ar Unedau Cyfeirio Disgyblion neu ddarpariaeth heblaw yn yr ysgol arall drosglwyddo'n ôl i addysg brif ffrwd pan fyddant yn gallu gwneud hynny; a
 - lleihau'r tebygolrwydd y bydd cyfrifoldeb am ddysgwyr yn cael ei golli rhwng ysgolion neu leoliadau, e.e. rhwng lleoliadau heblaw yn yr ysgol ac ysgolion (h.y. llai o amwysedd ynghylch pwy sy'n gyfrifol am y dysgwr).

Rheoliadau Darparu Gwybodaeth gan Benaethiaid i Rieni a Disgyblion sy'n Oedolion (Cymru) 2022

- 7.13 Ystyriwyd dwy opsiwn yn yr asesiad hwn.

Opsiwn 1 – Gwneud Dim

- 7.14 Ystyriwyd a ellid parhau i ddefnyddio'r ddeddfwriaeth bresennol, Rheoliadau 2011, o dan y Cwricwlwm i Gymru i roi gwybodaeth i rieni a gofalwyr am sut y mae eu dysgwr yn ei wneud yn yr ysgol.
- 7.15 Mae Rheoliadau 2011 yn gwneud darpariaeth ar gyfer adrodd ar wybodaeth mewn perthynas â chyrhaeddiad yn erbyn y cwricwlwm presennol, lle caiff cyrhaeddiad dysgwyr ei asesu yn erbyn cyfnodau allweddol a disgrifyddion

⁸ <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2021-09/disgyblion-syn-derbyn-addysg-heblaw-yn-yr-ysgol-medi-2020-i-awst-2021-313.tablau-313.ods>

lefel, pan wneir dyfarniad ar adeg benodol o fewn taith ddysgu disgyblion. O dan y Cwricwlwm i Gymru, ni fydd cyfnodau allweddol na disgrifyddion lefel a bydd disgyblion yn cael eu hasesu ar hyd continwmm dysgu, lle defnyddir camau cynnydd a disgrifiadau o ddysgu i helpu'r ysgol i gynllunio cynnydd priodol. At hynny, cydnabuwyd bod y dull a'r gofynion o ran darparu gwybodaeth fel sy'n ofynnol gan Reoliadau 2011 yn anghyson ag ethos y Cwricwlwm i Gymru ac nid yw'n adlewyrchu'r pwysigrwydd a roddir ar ymgysylltu â rhieni a gofalwyr ar draws y gwaith o gynllunio a chyflwyno cwricwla newydd o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

7.16 Felly, nid oedd defnyddio Rheoliadau presennol 2011 yn opsiwn ymarferol.

Opsiwn 2 – Cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion

7.17 Bydd y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn diddymu ac yn disodli Rheoliadau 2011.

7.18 Ystyriwyd opsiynau ynghylch diben darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion a'r effaith a fwriadwyd.

7.19 Mae rhieni a gofalwyr yn cael eu cydnabod fel rhanddeiliad sylfaenol yn y Cwricwlwm i Gymru ac mae ymgysylltu â chymuned ehangach yr ysgol, yn enwedig rhieni a gofalwyr, un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru. Mae rhieni a'r rhai â chyfrifoldeb rhiant yn gyfranwyr allweddol i ysgolion wrth iddynt ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm ac ystyrir eu bod yn hollbwysig i roi cwricwlwm ar waith yn llwyddiannus sy'n ei gwneud yn haws i ddysgwyr gyflawni'r pedwar diben. Maent nid yn unig yn chwarae rôl wrth helpu i ddatblygu'r weledigaeth ar gyfer cwricwlwm ysgol, ond maent hefyd yn chwarae rôl sylfaenol yn y broses o wireddu'r cwricwla, drwy'r cymorth y maent yn ei gynnig i'w plant.

7.20 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn cydnabod y rôl allweddol y mae rhiant/gofalwr yn ei chwarae i gefnogi cynnydd dysgwyr. Mae cyfathrebu'n effeithiol â rhieni/gofalwyr drwy'r amser yn ffordd bwysig o feithrin cydberthnasau cadarnhaol. Gall hyn helpu cynnydd dysgwyr drwy helpu rhieni/gofalwyr i ddatblygu dealltwriaeth glir o gynnydd eu plentyn yn erbyn cwricwlwm yr ysgol, a fydd wedi'i gynllunio i ddarparu ar gyfer cynnydd priodol fel y'i nodwyd yn genedlaethol yn y Cod Cynnydd, eu hanghenion o ran cynnydd yn y dyfodol a'r camau nesaf, a sut y gallant gefnogi dysgu a chynnydd o fewn amgylchedd yr ysgol a thu hwnt.

7.21 Mae cyfathrebu'n effeithiol hefyd yn bwysig o ran rhoi sicrwydd i rieni a gofalwyr ynglŷn â chynnydd eu dysgwr, y ffordd y cyflwynir y cwricwlwm a'r cymorth neu'r her a gynnigir i ddysgwyr i gefnogi eu camau dysgu nesaf.

7.22 Dangosodd adborth ynghylch datblygu fframwaith y Cwricwlwm i Gymru yn enwedig y trefniadau asesu, ac yn ehangach drwy ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid addysg, nad yw'r trefniadau adrodd presennol yn cefnogi

egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru ac nad ydynt yn cefnogi rhieni i ymgysylltu â'u plant a'u cefnogi drwy eu taith ddysgu.

- 7.23 Adolygwyd polisi un adroddiad ysgrifenedig blynyddol, fel y nodir ar hyn o bryd o dan Reoliadau 2011, yng ngoleuni diben darparu gwybodaeth i rieni yn y Cwricwlwm i Gymru, i alluogi rhieni i ddeall a chefnogi anghenion dysgu eu plentyn yn well er mwyn cefnogi cynnydd, gan bontio'r bwlch rhwng y cartref a'r ysgol. Darperir adroddiadau ysgrifenedig blynyddol fel arfer tua diwedd tymor yr haf ac mae adborth wedi dangos bod yr adroddiadau wedi'u hysgrifennu'n bennaf gan fanciau datganiadau sy'n ystyried y disgrifyddion lefel o fewn y cwricwlwm presennol. Felly, nid yw'r rhain yn canolbwyntio'n wirioneddol ar y dysgwr unigol a'i anghenion unigol ac mae darparu gwybodaeth tuag at ddiwedd y flwyddyn academaidd yn cyfyngu ar allu rhieni i ymgysylltu a chefnogi eu dysgwr drwy gydol y flwyddyn.
- 7.24 Daeth yr adolygiad i'r casgliad felly nad oedd y polisi presennol yn bodloni diben darparu gwybodaeth i rieni o fewn y Cwricwlwm i Gymru.
- 7.25 Er mwyn sicrhau bod rhieni'n gallu deall anghenion dysgu eu plentyn yn well rhoi cymorth, nodwyd y byddai angen adborth mwy rheolaidd wedi'i dargedu.
- 7.26 Cydnabyddir bod llawer o ysgolion a lleoliadau ledled Cymru eisoes yn cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni ar gynnydd dysgwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd drwy gydol y flwyddyn ysgol, boed drwy noson rieni, defnyddio apiau, adroddiadau interim etc. Fodd bynnag, nid yw pob ysgol yn darparu gwybodaeth yn unol â Rheoliadau presennol 2011, gan greu diffyg cydraddoldeb ledled Cymru.
- 7.27 Wrth ystyried sut y gellid mynd i'r afael â'r bylchau yn y dull presennol o weithredu er mwyn diwallu anghenion y Cwricwlwm i Gymru, drwy ymgysylltu ag ymarferwyr, rhoddwyd ystyriaeth i'r arferion gorau sydd eisoes ar waith, pryd ymgysylltir â rhieni yn ystod y flwyddyn ysgol, a'r gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.
- 7.28 Gan ystyried yr adborth a gafwyd drwy'r ymgynghoriad, roedd yn amlwg bod angen i unrhyw ofynion newydd ystyried capasiti ysgolion a lleoliadau a byddai angen iddynt adeiladu ar yr arferion presennol. Byddai angen i ofynion roi hyblygrwydd i ysgolion a lleoliadau er mwyn gallu teilwra'r wybodaeth a ddarperir i'w cwricwlwm ysgol a'u trefniadau asesu gan ddefnyddio systemau ysgolion unigol i gefnogi cyfathrebu.
- 7.29 Er mwyn hwyluso ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plentyn drwy gydol y flwyddyn ysgol, bydd angen darparu gwybodaeth am gynnydd allweddol ac anghenion dysgwyr bob tymor, gan ddod â chydraddoldeb i'r amllder y caiff gwybodaeth ei rannu â rhieni. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol sylfaenol ac ni fydd yn torri ar draws nac yn atal y cyfathrebu mwy rheolaidd a pharhaus sydd eisoes yn bodoli gyda rhieni.
- 7.30 Er y bydd darparu gwybodaeth am gynnydd allweddol ac anghenion dysgwyr yn hwyluso ymgysylltiad, dealltwriaeth a gallu rhieni i ddarparu cymorth, mae'n

dal yn bwysig bod rhieni'n cael darlun o gynnydd cyffredinol y dysgwr ar draws ehangder y cwricwlwm o fewn blwyddyn academiaidd, er mwyn helpu i roi sicrwydd i rieni ar gynnydd y dysgwr, ar gyflwyno'r cwricwlwm ac ar y cymorth sy'n cael ei gynnig i ddisgyblion. Felly, mae'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth ar ffurf diweddariad blynyddol wedi'i gadw.

- 7.31 I gydnabod y sybsidiaredd a roddir i benaethiaid drwy'r Cwricwlwm i Gymru i adlewyrchu amgylchiadau lleol, mae'r gofynion yn y Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn rhoi hyblygrwydd i benaethiaid benderfynu ar ba fformat y darperir gwybodaeth, er mwyn sicrhau y gellir parhau i ddarparu arfer gorau a bod gan ysgolion yr hyblygrwydd i gefnogi anghenion rhieni unigol i sicrhau'r ymgysylltiad a'r ddealltwriaeth fwyaf posibl i gefnogi dysgwyr.

Costau a manteision

- 7.32 Sybsidiaredd yw un o egwyddorion sylfaenol y Cwricwlwm i Gymru ac o dan Ddeddf 2021 mae'n ofynnol i ysgolion a lleoliadau wneud eu trefniadau asesu eu hunain i gefnogi eu cwricwlwm eu hunain a ddatblygwyd o fewn fframwaith y Cwricwlwm i Gymru.
- 7.33 Mae'r Rheoliadau Darparu Gwybodaeth yn ystyried y sybsidiaredd a ddarperir gan y Cwricwlwm i Gymru ac yn rhoi hyblygrwydd i benaethiaid o ran sut y darperir gwybodaeth i rieni. O dan Rheoliadau Addysg (Trefniadau ar gyfer Asesu yn y Cwricwlwm i Gymru) (Cymru) 2022, bydd yn rhaid i ysgolion roi trefniadau asesu ar waith i gefnogi cynnydd dysgwyr. Mater i ysgolion fydd penderfynu ar y trefniadau asesu hynny a pha wybodaeth sy'n cael ei chofnodi a sut i ddangos tystiolaeth a chefnogi dealltwriaeth o gynnydd dysgwyr. Bydd gwybodaeth yn cael ei darparu i rieni a disgyblion sy'n oedolion am anghenion a chynnydd dysgwyr o'r trefniadau asesu hyn a'r systemau ysgol a roddir ar waith. O ganlyniad, ni ystyrir bod dadansoddiadau a chostau ar wahân yn ymwneud ag effeithiau dosrannu elfennau penodol o Fframwaith deddfwriaethol Cwricwlwm i Gymru (y mae'r rheoliadau hyn yn rhan ohonynt) yn ddichonadwy; neu, os ceisir gwneud hynny, y byddai'n arwain at ganlyniadau amheus o ystyried yr ystod eang o newidynnau a chafeatau cysylltiedig.
- 7.34 Mae pob ysgol eisoes yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol yn rhinwedd Rheoliadau 2011 ac mae llawer o ysgolion eisoes wedi cynnwys systemau a phrosesau i rannu gwybodaeth yn fwy rheolaidd â rhieni am gynnydd dysgwyr. Felly, yn achos llawer o ysgolion, bydd y costau sy'n gysylltiedig â darparu gwybodaeth i rieni a disgyblion sy'n oedolion sydd eisoes wedi'u cynnwys yng nghostau presennol y ddarpariaeth.
- 7.35 I'r ysgolion hynny nad ydynt eto'n darparu gwybodaeth bob tymor, bydd rhywfaint o gost ychwanegol. Fodd bynnag, gyda phenaethiaid yn gyfrifol am benderfynu ar y fformat y rhennir gwybodaeth ynddo, a'r amrywiaeth o opsiynau fformat sydd ar gael i benaethiaid, nid yw'n bosibl mesur y gost ychwanegol bosibl gan y bydd hyn yn amrywio rhwng lleoliadau.

7.36 Er mwyn dechrau mesur yr ystod o gostau ychwanegol posibl, mae angen monitro ac adolygu sut y caiff y polisi ei weithredu ar draws ysgolion. Y bwriad felly yw y byddwn, dros y flwyddyn i ddod, yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y sector addysg i ddeall yn well y dulliau a ddefnyddir gan benaethiaid i gyflawni'r polisi a gwerthuso'r modd y caiff ei weithredu.